

RHOI CYMORTH GYDA THAI I GYMUNED Y LLUOEDD ARFOG YNG NGHYMRU

CANLLAW ARFER GORAU



LIVE ON



GAIR AM Y LLENG BRYDEINIG FRENHINOL

Mae'r Llang Brydeinig Frenhinol yng nghanol rhwydwaith cenedlaethol sy'n cefnogi cymuned ein Lluoedd Arfog, beth bynnag fo'r sefyllfa – gan sicrhau na fydd eu cyfraniad unigryw fyth yn cael ei anghofio. Cawsom ein creu fel grym i uno'r sector elusennol milwrol ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, ac rydym yn dal i fod yn un o sefydliadau aelodaeth mwyaf y DU. Y Llang yw'r darparwydd cymorth mwyaf yn sector elusennol y Lluoedd Arfog, ac mae'n helpu cyn-filwyr hen ac ifanc pan fyddant yn dychwelyd i fywyd sifil. Rydym yn eu helpu gyda chyflogaeth, canllawiau ariannol, seibiant ac adferiad hyd at ofal gydol oes a chymorth i fyw yn eu cartrefi.

Rydym yn rhoi cymorth arbenigol i aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac o ddioddef ansicrwydd o ran tai neu i rai sy'n ceisio deall beth yw eu hawliau. Rydym yn helpu pobl i ganfod llety brys, yn rhoi cymorth i bobl gael tai cymdeithasol, a helpu pobl i ddodrefnu ac ymgartrefu yn eu cartrefi newydd gyda'n grantiau uniongyrchol. Rydym yn rhoi'r cymorth hwn i bersonél sy'n gwasanaethu ac i gyn-filwyr a'u teuluoedd, gan gynnwys aelodau teuluoedd sy'n galaru a phartneriaid a gwŷr a gwragedd sydd wedi gwahanu. Cawsom ein sefydlu yn 1921 a byddwn yma gyhyd ag y bydd ein hangen arnynt.

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.britishlegion.org.uk

Er mwyn cael cymorth, ffoniwch ein llinell gymorth ar **0808 802 8080** Rydym yn agored rhwng 8am ac 8pm, 7 niwrnod yr wythnos.

Er mwyn cael gwybodaeth am y ddogfen hon anfonwch e-bost i publicaffairs@britishlegion.org.uk

Gellir gwneud cais am gopi print bras o'r ddogfen hon.

CYNNWYS



Rhagair	Page: 4
Cyflwyniad	Page: 8
Pennod Un – Digartrefedd a Chysgu Allan	Page: 10
Pennod Dau – Dyraniadau Tai	Page: 17
Pennod Tri – Adnabod cymuned y Lluoedd Arfog	Page: 25
Pennod Pedwar – Ffynonellau cymorth allweddol	Page: 28
Casgliad – Camau Gweithredu Awgrymedig	Page: 31
Darllen ymhellach a llyfryddiaeth	Page: 34

RHAGAIR

Mae'r Llang Brydeinig Frenhinol yng nghanol rhwydwaith cenedlaethol sy'n cefnogi cymuned ein Lluoedd Arfog, beth bynnag fo'r sefyllfa – gan sicrhau na fydd eu cyfraniad unigryw fyth yn cael ei anghofio. Mae'r mwyafrif helaeth o gyn-filwyr a'u teuluoedd yn mynd ymlaen i fyw bywydau llawn ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'n cymunedau lleol. Er hyn, efallai y bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar rai ohonynt, ac mae'r Llang yma i sicrhau'r gefnogaeth honno.

Mae angen ein cymorth ar lawer o'r bobl rydym yn eu cefnogi i ddod o hyd i lety cynaliadwy addas o ansawdd da ar ôl gadael y Lluoedd Arfog. Bydd y ceisiadau hyn am gymorth yn amrywio o ran difrifoldeb, o rai sydd â'r modd ond nad oes ganddynt unrhyw syniad ymhle i chwilio am gartref newydd, i rai eraill sy'n wynebu'r mathau gwaethaf posibl o ddigartrefedd ac sy'n gorfod cysgu allan. Waeth beth fo'r sefyllfa, ni ddylai

unrhyw un sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU wynebu unrhyw fath o ddigartrefedd a bydd y Llang bob amser yma i gynorthwyo'r rhai sydd angen cymorth.

Ond nid ydym yn darparu'r cymorth hwnnw ar ein pen ein hunain. Mae'r Llang yn gweithio orau pan fyddwn yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau statudol lleol a sefydliadau elusennol eraill. Mae rhannu arbenigedd, adnoddau a phrofiad rhwng gwasanaethau statudol ac elusennau fel y Llang yn arwain at weithredu cyflym ac effeithiol wrth gefnogi'r rhai sydd fwyaf angen cymorth. Yn y tudalennau canlynol byddwch yn darllen am sawl enghraifft o'r partneriaethau hyn ar waith, a'r gobaith yw y cewch eich ysbrydoli ganddynt.

Gwelwyd cynnydd sylweddol wrth fynd i'r afael ag anfantais a darparu triniaeth arbennig lle bo'n briodol a chroesawn

ymrwymiad Awdurdodau Lleol Cymru at Gyfamod y Lluoedd Arfog. Yn 2016, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei *Lwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog*, sydd wedi rhoi eglurder ac wedi bod o gymorth mawr i gyn-filwyr Cymru. Fodd bynnag, mae mwy y gallwn ei wneud bob amser i sicrhau ein bod yn gwneud gwahaniaeth gweladwy i fywydau ein cymuned leol o'r Lluoedd Arfog. Bydd y Llang yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r llywodraeth leol i sicrhau fod hyn yn digwydd.

Rwy'n gobeithio y bydd y tudalennau canlynol yn adnodd y bydd eich sefydliad yn ei groesawu ac y byddwch yn gweithredu yn unol â'n hargymhellion. Edrychwn ymlaen at weithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol, i roi Cyfamod y Lluoedd Arfog ar waith ac i helpu i wella bywydau cymuned y Lluoedd Arfog.



Ant Metcalfe
Rheolwr Ardal Cymru
Y Llang Brydeinig Frenhinol

RHAGAIR

Rydym yn falch tu hwnt o gynorthwyo a chefnogi'r gwaith o greu'r Pecyn Cymorth rhagorol hwn a ddatblygwyd gan Y Llog Brydeinig Frenhinol er mwyn sicrhau fod Awdurdodau Lleol yn gallu cefnogi cyn-filwyr sydd angen tai i gael llety cyn gynted ag sydd bosibl.

Clwstwr Tai Cobseo yw'r grŵp ymbarél sy'n cydgysylltu'r ymateb i ddigartrefedd ymhlith cyn-filwyr yn y DU. Yn 2018 gwnaethom lansio Galwad i Weithredu i geisio lleihau digartrefedd ymhlith cyn-filwyr i'r lefel isaf bosibl – amcan teilwng iawn.

Rydym yn canolbwyntio ar dair agwedd. Trosglwyddo; sicrhau bod gan bawb sy'n gadael y Lluoedd Arfog lwybr clir at lety. 'Civvy Street'; sicrhau bod awdurdodau lleol ac elusennau yn canfod cyn-filwyr yn gyflym ac yn eu cyfeirio at wasanaethau priodol,

gan gynnwys y rhai y gall y sector cyn-filwyr eu cynnig. Yn olaf, gofyn am adnoddau; nid yn unig arian i gynnal y gwasanaethau sydd eu hangen ar gyn-filwyr digartref, ond hefyd i sicrhau bod darparwyr tai o bob math yn gofalu bod eu llety ar gael i gyn-filwyr sydd ei angen.

Mae'r Pecyn Cymorth hwn yn symbylu'r ail agwedd, drwy sicrhau fod gan Awdurdodau Lleol yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r ffordd orau y gallant nodi ac ymateb i gyn-filwyr digartref wrth inni i gyd weithio i leihau digartrefedd ymhlith cyn-filwyr i'r lefel isaf bosibl. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi i gyflawni hyn.



Ed Tytherleigh

Prif Weithredwr, Stoll
Cyd-Gadeiryddion Clwstwr Tai Cobseo



James Richardson

Prif Weithredwr, Tai Haig
Cyd-Gadeiryddion Clwstwr Tai Cobseo

CYFLWYNIAD

Yn 2011 cafodd egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog eu hymgorffori mewn deddfwriaeth o ganlyniad i ymgyrchu gan Y Llog Brydeinig Frenhinol. Ers hynny, mae llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol, ynghyd â nifer o elusennau a mwy na 3,000 o fusnesau a sefydliadau eraill, bellach wedi ymrwymo i sicrhau fod yr egwyddorion allweddol yn cael eu cynnal:

- Ni ddylai'r rhai sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, boed y Lluoedd Rheolaidd neu'r Lluoedd Wrth Gefn, y rheini a wasanaethodd yn y gorffennol, na'u teuluoedd, wynebu unrhyw anfantais o'u cymharu â dinasyddion eraill o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus a masnachol, a
- Mae ystyriaeth arbennig yn briodol mewn rhai achosion, yn enwedig i'r rheini sydd wedi cyfrannu fwyaf, fel yr anafedig a'r rhai sy'n galaru.

Heddiw, mae pob awdurdod lleol ym Mhrydain a nifer yng Ngogledd Iwerddon wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i gynnal egwyddorion deublyg y Cyfamod a'u gweithredu

yn eu gwaith wrth wasanaethu eu cymunedau. Ers ymgyrchu i sicrhau bod y Cyfamod wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth, mae'r Llog wedi bod ar flaen y gad yn ceisio ei gweithredu'n effeithiol. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi cynhyrchu'r canllaw newydd hwn. Y bwriad yw y bydd yn rhoi cyngor ymarferol i awdurdodau lleol ac i awdurdodau tai ar sut i gefnogi aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog sy'n wynebu problem tai neu ddigartrefedd sydd ar fin digwydd.

Er nad yw digartrefedd a chysgu allan mor uchel ymhlith cyn-filwyr ag y gall llawer o bobl feddwl, mae rhai cyn-filwyr yn dal i'w chael yn anodd dod o hyd i lety addas ar ôl gadael Lluoedd Arfog ei Mawrhydi. Yn wir, dros y flwyddyn ddiwethaf, mae tai wedi parhau i fod yn un o'r tri rheswm pennaf pam y bydd pobl yn cysylltu â Veterans' Gateway; sef y cyswllt cyntaf cenedlaethol i gyn-filwyr sy'n ceisio cymorth. O ystyried nifer y sefydliadau elusennol sy'n bodoli a'r darpariaethau statudol sydd eisoes mewn lle, mae o fewn cyrraedd pob un ohonom i leihau nifer y cyn-filwyr digartref yng Nghymru i'r lefel isaf bosibl.



© Crown copyright 02/11

Mae'r Llog Brydeinig Frenhinol yn falch o weithredu mewn cymunedau ledled y wlad, gan weithio ag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i adeiladu'r partneriaethau a'r llwybrau lleol a fydd yn lleihau digartrefedd ymhlith cymuned y Lluoedd Arfog. Wrth gwrs, nid yw'r Llog yn gwneud y gwaith hwn ar ei phen ei hun. Mae llawer o elusennau cenedlaethol a lleol, a nifer ohonynt yn ymddangos yn y canllaw hwn, hefyd yn gweithio i gynorthwyo cyn-filwyr a'u teuluoedd i adael sefyllfaoedd argyfyngus i gael cartrefi da a chynaliadwy. Rydym yn ddiolchgar am eu cefnogaeth barhaus i gymuned y Lluoedd Arfog, ac am eu cyfraniadau i'r canllaw hwn.

Rydym yn gobeithio y bydd y cyhoeddiad hwn yn adnodd gwerthfawr i bob gweithiwr proffesiynol rheng flaen sy'n darparu gwasanaethau tai a digartrefedd, drwy wneud y canlynnol:

- Amlygu'r problemau cyffredin a wynebir gan gymuned y Lluoedd Arfog o ran tai a digartrefedd;
- Amlinellu cyfrifoldebau cyfredol y llywodraeth a'r awdurdodau tai.
- Darparu pecyn cymorth o gyngor ymarferol ar sut i wella gwasanaethau ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog.
- Nodi arfer da o bob rhan o Gymru fel ffynhonnell o ysbrydoliaeth.

PENNOD UN

DIGARTREFEDD A CHYSGU ALLAN

Pa mor gyffredin yw digartrefedd ymhlith cyn-filwyr?

Mae yna gamsyniad poblogaidd ymhlith y cyhoedd fod digartrefedd yn ganlyniad cyffredin wrth adael y Lluoedd Arfog a bod cyfran sylweddol o'r rhai sy'n cysgu allan yn y DU yn gyn-filwyr. Y gwir yw bod y mwyafrif o gyn-filwyr yn trosglwyddo i gartref newydd yn llwyddiannus. Nifer cymharol isel o gyn-filwyr sy'n cael anawsterau mor ddifrifol fel eu bod yn dod yn ddigartref neu'n cael eu hunain yn cysgu allan. Bu ymchwil gan Brifysgol Caereffrog yn 2018 yn edrych yn fanwl ar y niiferoedd ledled y DU. Daeth i'r casgliad fod cannoedd o gyn-filwyr yn cysgu allan a bod mwy na 1,000 o achosion brys o ddigartrefedd a bod angen brys am dai ar rhwng 3,000 a 4,000 o gyn-filwyr dros unrhyw flwyddyn benodol. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon o ystyried argaeledd cyfyngedig data swyddogol cywir. Er enghraifft, yng Nghymru, gofynnir cwestiwn am Wasanaeth blaenorol yn y Lluoedd Arfog yn ystod y cyfrif blynyddol o bobl sy'n cysgu allan, er nad yw'r data hwnnw ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i elusennau a darparwyr eraill dargedu eu hadnoddau'n gywir.

Er hynny, nid yw hyn yn lleihau pwysigrwydd gweithredu er mwyn lleihau achosion o ddigartrefedd a chysgu allan ymysg cyn-filwyr. Ni ddylai unrhyw un sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU orfod

wynebu digartrefedd na chael ei orfodi i gysgu allan.

Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r *Cynllun Gweithredu Cysgu Allan*, sy'n ychwanegiad at *Gynllun Digartrefedd Deng Mlynedd 2009* gan nodi fod "Mae Llywodraeth Cymru wedi ymroi i'r nod o gael gwared ar ddigartrefedd yng Nghymru. Atal digartrefedd yw ein prif strategaeth ond pan nad yw hynny'n bosibl rydym am sicrhau bod achosion o ddigartrefedd yn brin, yn fyrhoedlog ac nad ydynt yn digwydd eto." Mae'n amlwg, felly, fod yn rhaid i'r frwydr yn erbyn digartrefedd fod yn flaenoriaeth drwy Gymru gyfan.

Pam y gallai cyn-filwr fod yn wynebu digartrefedd?

Bydd yr achosion o ddigartrefedd i raddau helaeth yr un fath ag i unrhyw un arall sy'n wynebu digartrefedd. Fodd bynnag, mae ychydig o amgylchiadau sy'n gysylltiedig yn benodol â bywyd cyn-filwr a all gynyddu'r tebygolrwydd y bydd yn dod yn ddigartref:

- **Y broses o adael y Lluoedd Arfog sy'n cael ei rheoli'n wael neu adael yn gynnar a hynny'n annisgwyl.**

Yn 2019, roedd tri chwarter personél y Lluoedd Arfog yn byw yn llety'r Gwasanaeth yn ystod yr wythnos waith. Wrth adael y Lluoedd Arfog, bydd angen i'r personél hyn ddarganfod cartref newydd. Mae Canolfan

Llety Person Sengl i Gyn-Weithwyr y Lluoedd Arfog (SPACES) wedi cynorthwyo 1,000 o gyn-filwyr y flwyddyn ar gyfartaledd, gyda 84% o'r rhain yn dweud bod eu digartrefedd o ganlyniad i gael eu rhyddhau o'r Lluoedd Arfog.

- **Disgwyliadau afrealistig o opsiynau tai y tu allan i'r Lluoedd Arfog.**

Dangosodd yr Astudiaeth Mapio Trosglwyddo 2013 lefelau isel o ymwybyddiaeth ymhlith personél sy'n gadael y Gwasanaeth yngŷn â'r hyn sydd angen er mwyn prynu neu rentu ar y farchnad breifat yn y DU.

- **Gwendidau yn dod i'r amlwg neu wendidau oedd yn bodoli'n flaenorol yn dychwelyd.** Mae rhai personél yn gadael y Lluoedd Arfog ac yn dychwelyd at ffordd o fyw a oedd yn ddi-drefn yn flaenorol. Gall hyn aildanio gwendidau a allai fod wedi bodoli cyn iddynt ymuno â'r Lluoedd Arfog.

Pa un ai o ganlyniad i gyfnod trosglwyddo a reolir yn wael wrth adael y Lluoedd Arfog, neu broblem sy'n codi beth amser ar ôl gadael y Gwasanaeth, gellir rhoi gwell cymorth i gyn-filwyr y DU, a'u teuluoedd, wrth eu harwain allan o ddigartrefedd.

Pa gymorth sy'n bodoli ar hyn o bryd?

Yn 2016 cyflwynodd Llywodraeth Cymru *Lwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog*, sy'n nodi llawer o'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i gyn-filwyr yn y maes hwn.

O dan *Ddeddf Tai (Cymru) 2014*, os yw aelod o'r Gwasanaeth 56 o ddyddiau i ffwrdd o gael ei ryddhau a heb llety, mae'n ddyletswydd ar awdurdod lleol i'w helpu i ddod o hyd i llety addas. Gall y llety hwn fod naill ai yn y sector preifat neu yn y sector rhentu ac mae'n

rhaid disgwyl y bydd yn para o leiaf 6 mis. Mae pobl sy'n ddigartref wrth adael y Lluoedd Arfog Rheolaidd yn cael eu hystyried fel rhai a chanddynt angen blaenoriaethol, ond mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn asesu a ddylid ymestyn cwmpas anghenion blaenoriaethol neu ei dynnu. Disgwylir i'r gwerthusiad gyflwyno adroddiad yn 2020, a gobaiith y Llong yw y bydd angen blaenoriaethol yn cael ei ymestyn i gwmpasu sawl blwyddyn ar ôl gadael y Lluoedd Arfog.

Mae Deddf Tai (Cymru) hefyd yn ystyried fod gan rywun angen blaenoriaethol os yw'n "agored i niwed o ganlyniad i ryw reswm arbennig (er enghraifft: henaint, salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd corfforol neu feddyliol)." Unwaith eto, hoffai'r Llong weld awdurdodau lleol yn cydnabod derbyn Pensiwn Anabledd Rhyfel neu Daliad Incwm Gwarantedig y Lluoedd Arfog fel un o'r 'rhesymau arbennig' hyn, o gofio bod y ddau yn iawndal am anafiadau neu gyflyrau a gafwyd yn ystod y Gwasanaeth.

Crynodeb o'r Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyraniadau Llety a Digartrefedd 2016 Rhan 2

- Rhaid i strategaeth ddigartrefedd gynnwys darpariaeth ar gyfer pobl sy'n gadael Lluoedd Arfog Rheolaidd y Goron.
- Dylai awdurdodau dderbyn Tystysgrifau Terfynu Hawl Preswyllo mewn Llety'r Gwasanaeth a Digartrefedd Arfaethedig a gynhyrchir gan Swyddfa Ardal briodol Gweithgor Tai'r Weinyddiaeth Amddiffyn fel tystiolaeth ddigonol – rhoddir y tystysgrifau hyn fel arfer chwe mis cyn rhyddhau.
- Dylai awdurdodau gydnabod bod angen

blaenoriaethol yn codi lle bo'r ymgeisydd wedi methu â sicrhau llety parhaol addas ers gadael y Lluoedd Arfog.

- Wrth ystyried y graddau o barhad, yn ogystal ag ystyried addasrwydd llety, fel y disgrifir ym Mhennod 19 rhaid rhoi sylw i fwriad gwreiddiol y trefniant pan ddechreuodd yr ymgeisydd breswyllo yn y llety. Er enghraifft, os symudodd yr ymgeisydd gyda ffrindiau i lety nad oedd ond wedi'i fwriadu i fod yn fesur dros dro yn unig nes iddo ddarganfod llety arall, yna efallai na fyddai hyn yn cael ei ystyried fel 'ymgartrefu'. Ni ddylid gosod terfyn amser ar gymhwysedd ar ôl rhyddhau, os nad oes unrhyw lety parhaol addas wedi'i ddarganfod.
- Bydd angen i awdurdodau ystyried a yw cyn-bersonél y Lluoedd Arfog sydd wedi cael eu cartrefu ar ôl cael eu rhyddhau, ond sy'n ddigartref yn ddiweddarach, yn agored i niwed am ryw reswm arbennig.

Bydd angen iddynt ystyried eu cefndir yn y Gwasanaeth a allai arwain at sefyllfa o fod yn agored i niwed, yn enwedig os oes ganddynt anhwylder straen wedi trawma.

- Rhaid i'r awdurdod tai lleol sicrhau bod ei wasanaethau wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion grwpiau sy'n wynebu risg benodol o ddigartrefedd, gan gynnwys pobl sy'n gadael lluoedd arfog rheolaidd y Goron.
- Mae'n hollbwysig bod Awdurdodau Lleol yn ystyried anghenion unigol yr ymgeisydd wrth ddatblygu ymyriadau ar gyfer cyn-filwyr y Lluoedd Arfog er mwyn iddynt gael mynediad at y gwasanaethau arbenigol sydd ar gael iddynt.
- Pan fo rhywun wedi cyflwyno ei hun hyd at chwe mis cyn cael ei rhyddhau o'r Lluoedd Arfog, mae'n rhaid i Awdurdodau ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn unol â'u dyletswydd yn Adran 60 Deddf Tai (Cymru).

DYFYNIAD O'R COD CANLLAWIAU CYN-FILWYR:

O dan Adran 70 Deddf Tai (Cymru) 2014, mae pobl sydd wedi gwasanaethu'n flaenorol yn Lluoedd Arfog rheolaidd y Goron ac sydd wedi bod yn ddigartref ers gadael y Lluoedd hynny yn cael eu cydnabod fel rhai sydd mewn sefyllfa o angen blaenoriaethol. Fodd bynnag, gall cyn-filwyr hefyd gael anawsterau ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, wrth addasu i fywyd sifil. Gall hyn gynnwys, trawma sy'n dechrau'n hwyr, anawsterau iechyd meddwl, problemau sy'n gysylltiedig ag anafiadau corfforol a chamdddefnyddio sylweddau. Gall y materion hyn wedyn arwain at anawsterau wrth iddynt addasu

i'w bywyd newydd ac, mewn rhai achosion, gwrthdaro â'r system cyfiawnder troseddol.

Mae Awdurdodau Lleol sy'n gweithio â'u partneriaid ledled Cymru wedi ymrwmo i Gyfamodau Cymunedol, sy'n annog darparwyr o bob sector i gynnig cymorth wedi'i dargedu i'w cymuned Lluoedd Arfog. I gynyddu mynediad i'r cymorth hwn, dylai Awdurdodau Lleol weithio â gwasanaethau allgymorth digartrefedd lleol i gynorthwyo'r gwaith o ganfod cyn-filwyr (yn ddynion a merched) ymhlith pobl ddigartref.

Gwella gwasanaethau digartrefedd:

- **Ymestyn Angen Blaenoriaethol fel ei fod yn cwmpasu nid yn unig y rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog ond y rhai a adawodd hyd at bum mlynedd yn ôl hefyd, i ganiatáu ar gyfer addasu i fywyd sifil.**
- **Adnabod cyn-filwyr mor gynnar â phosibl.** Ei gwneud hi'n arfer safonol gofyn i'r holl rai sy'n gwneud cais i'ch awdurdod a ydynt hwy, neu aelod o'u teulu, erioed wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog ei Mawrhydi. Mae'r Llenw wedi galw ers tro ar bob corff cyhoeddus i 'ofyn y cwestiwn' yn ystod y cyswllt cyntaf â chleientiaid. Gall rhai cyn-filwyr fod yn gyndyn o ddatgelu eu bod wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yn flaenorol, felly mae'n bwysig esbonio pam y mae'r cwestiwn yn cael ei ofyn. Mae 'gofyn y cwestiwn' yn caniatáu i gyn-filwyr a nodwyd gael eu cyfeirio at lwybrau cymorth arbenigol ac yn sicrhau eu bod yn cael y cymorth mwyaf addas yn gyflym.
- **Darparu cyngor a gwybodaeth arbenigol.** Pa un ai yn ystod y cam darparu cyngor cychwynnol neu'n ddiweddarach yn ystod y broses, bod â dealltwriaeth glir o ba gamau sydd rhaid eu cymryd yn achos ymgeisydd sy'n gyn-filwr cyn gynted ag y caiff ei ddarganfod. Bydd pob awdurdod lleol yn ymdrin â hyn mewn ffordd wahanol, ond dylai hyn gynnwys:
 - Cyfeirio at elusennau arbenigol ledled y wlad i gael cymorth ychwanegol.

Mae nifer o elusennau'r Lluoedd Arfog yn gweithredu ledled Cymru a gall y dewis fod yn ddruslyd. Sefydlwyd y Veterans' Gateway i fod yn gyswllt cyntaf i gyn-filwyr sy'n ceisio cymorth ac mae ar gael 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos. Gall y Gateway ddarparu cymorth gan gynghorwyr tai arbenigol. Ceir rhagor o wybodaeth ym Mhennod Pedwar.

- Cysylltu ag elusennau lleol y Lluoedd Arfog. Gall elusennau cenedlaethol fod wedi'u lleoli yn eich ardal leol, neu efallai y bydd elusennau llai ag ôl troed daearyddol penodol. Meithrin cysylltiadau â hwy a gweithio mewn partneriaeth i gefnogi cyn-filwyr a'u teuluoedd.
- Os yw'r ymgeisydd eisoes yn ddigartref, cyn gynted ag sydd bosibl eglurwch y broses o sefydlu a oes gwendid a phenderfynu ar Angen Blaenoriaethol, a sut y byddai hyn yn effeithio ar brif ddyletswydd tai'r awdurdod.
- **Dyraniadau tai cymdeithasol.** Efallai mai'r peth mwyaf priodol fyddai cyfeirio ymgeisydd at ddyraniadau tai. Mae manylion ynglŷn â sut y mae cymuned y Lluoedd Arfog yn cael gafael ar y gwasanaethau hyn yn cael eu trafod ym Mhennod Dau.

Tŷ Dewr - Wrecsam

Mae Byddin yr Iachawdwriaeth yn rhedeg uned dai dros dro â chymorth lle ceir 12 ystafell wely en suite ar gyfer cyn-filwyr sy'n canfod eu hunain yn ddigartref neu sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref. First Choice Housing sy'n berchen ar yr adeilad, ac mae ganddo hefyd dai anghenion cyffredinol ar gyfer cyn-filwyr yn Nhŷ Ryan yn Wrecsam.

Mae Tŷ Dewr mewn lleoliad tawel ar gyrion Wrecsam â thir o'i gwmpas a champfa allanol. Nod Tŷ Dewr yw cynorthwyo cyn-filwyr sy'n trosglwyddo i fywyd sifil drwy nodi unrhyw anghenion cymorth a all fod ganddynt gyda'r nod yn y pen draw o ganfod eu llety eu hunain iddynt. Gall cyn-filwyr digartref gael mynediad i Dŷ Dewr drwy gysylltu â'r gwasanaeth yn uniongyrchol, drwy gysylltu ag elusennau cyn-filwyr a thrwy gysylltu ag adran dai Cyngor Bwrdeistref Wrecsam.

Hafal, Cymorth Tenantiaeth Gofal Aciwt (ACTS)

Mae prosiect ACTS yn brosiect cymorth fel y bo'r angen ar gyfer pobl sydd ag anghenion gofal iechyd meddwl eilaidd. Gellir darparu cymorth am hyd at 12 mis ac mae'n cynnwys atal digartrefedd.

Cyngor Caerdydd - Cynghorwyr Cyn-filwyr

Mae gan Gyngor Caerdydd 3 aelod o staff pwrpasol i gynorthwyo cyn-filwyr a'u teuluoedd mewn nifer o feysydd, gan gynnwys: Budd-daliadau, Cyflogaeth, Dyled a Thai. Mae cymorth tai yn cynnwys tai cyngor yn ogystal â helpu'r rhai sy'n ddigartref, neu'r rhai sydd angen help gyda rhent y misoedd cyntaf ymlaen llaw. Mae'r tîm yn gweithio'n agos â rhwydwaith eang y trydydd sector.

Cynghorau Bro Morgannwg, RhCT a Merthyr Tudful - Gwasanaeth Cynghori Cyn-filwyr

Yn ddiweddar, mae'r cynghorau hyn wedi sefydlu "Gwasanaeth Cynghori Cyn-filwyr" sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth di-dâl, diduedd a phwrpasol i aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog. Mae'r gwasanaeth yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys Tai, Budd-daliadau, Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Cyllid a Chyflogaeth.

RHAGOR O GYMORTH I GYN-FILWYR DIGARTREF

Gellir cysylltu â Veterans' Gateway 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos

www.veteransgateway.org.uk

Ffôn: **0808 802 1212**

Anfonwch neges destun at **81212** i dderbyn galwad yn ôl.

Ar gyfer cyn-filwyr mewn argyfwng: Veterans Aid:

www.veterans-aid.net

Mae Veterans Aid yn darparu cymorth uniongyrchol, ymarferol i gyn-filwyr y DU mewn argyfwng, waeth beth fo'u hoedran, ethnigrwydd, safle, rhyw neu hyd eu Gwasanaeth. e. Rhadffôn: **0800 012 6867**

Ffôn: **0207 828 2468**

info@veterans-aid.net

Canolfan Weithrediadau: 27 Victoria Square, Llundain, SW1W 0RB

Alabaré **www.alabare.co.uk**

Shelter Cymru **www.sheltercymru.org.uk**

Solas Cymru **www.solas-cymru.co.uk**

Tŷ Dewr **tydewr@salvationarmy.org.uk**

Ffôn: **01978 355410**

Partneriaeth Cyn-filwyr Cymru **www.welshveteranspartnership.org**



PENNOD DAU

DYRANIADAU TAI

Wrth gwrs, gall aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog sy'n cael anawsterau i ddarganfod llety addas ystyried gwneud cais am gymorth gan awdurdodau lleol sy'n dyrannu tai. Fodd bynnag, yn ôl profiad llawer o aelodau cymuned y Lluoedd Arfog sy'n gwneud cais am dai cymdeithasol, nid yw hyn bob amser yn broses hwylus. Gofynnir yn aml i wasanaethau'r Llang helpu cyn-filwyr a'u teuluoedd i lywio eu ffordd drwy'r broses gymhleth o wneud cais am dai cymdeithasol. Yn ôl adroddiadau gan ein gwirfoddolwyr a'n staff ceir amrywiaeth sylweddol rhwng awdurdodau lleol ledled Cymru o ran y ffordd y darperir cymorth i aelodau cymuned y Lluoedd Arfog sy'n chwilio am dai cymdeithasol. Canfu Arolwg Cartrefi'r Llang yn 2014 fod 6% o'r rhai a oedd wedi'u rhyddhau o'r Lluoedd Arfog yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi cael rhywfaint o anhawster wrth wneud cais am lety cyngor neu gymdeithas tai.

Blaenoriaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bod yn bwysig rhoi blaenoriaeth uchel i gyn-bersonél y Lluoedd Arfog sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol neu sy'n anabl yn dilyn eu Gwasanaeth ac sydd ag angen brys am dai cymdeithasol o fewn cynlluniau dyrannu awdurdodau lleol fel cydnabyddiaeth am eu gwasanaeth. Cafodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyn ei sefydlu yn *Ymrwymiad y Genedl: Cymorth Traws-lywodraethol i'n Lluoedd Arfog, eu Teuluoedd a Chyn-filwyr 2008*, a ddiweddarwyd yn unol â Chyfamod y Lluoedd Arfog ac ymateb Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y *Pecyn Cymorth i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru 2011*.

Dewis Ychwanegol

Mae'r Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyraniadau Llety a Digartrefedd 2016 yn rhoi blaenoriaeth ychwanegol i aelodau penodol o gymuned y Lluoedd Arfog.

RHAN O GOD CANLLAWIAU 2016:

Mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol ystyried, yng ngoleuni amgylchiadau lleol, yr angen i weithredu'r ddarpariaeth hon. Dyma rai enghreifftiau o bobl y dylai Awdurdod Lleol ystyried rhoi blaenoriaeth ychwanegol iddynt o fewn ei gynllun dyrannu:

iv. iunrhyw ymgeisydd sydd angen symud i lety priodol wedi'i addasu oherwydd anaf difrifol, cyflwr meddygol neu anabledd y mae ef neu hi, neu aelod o'i deulu, wedi ei gael o ganlyniad i Wasanaeth yn y Lluoedd Arfog

v. pobl sydd angen llety o ganlyniad i adael y Lluoedd Arfog a cholli llety milwrol.

Mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi newid eu polisiau dyrannu erbyn hyn er mwyn rhoi blaenoriaeth ychwanegol i gymuned y Lluoedd Arfog. Mae rhai awdurdodau hefyd wedi gosod y Lluoedd Arfog yn y bandiau blaenoriaethu uchaf sydd ar gael. Pob tro y bydd polisi dyrannu yn cael ei newid, mae'r Llong yn argymhell y dylai awdurdodau lleol adolygu'r darpariaethau sy'n ymwneud â chymuned y Lluoedd Arfog a phenderfynu a ellir rhoi mwy o flaenoriaeth.

Cysylltiad Lleol

Fel arfer, rhaid i ymgeiswyr am dai cymdeithasol ddangos cysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod lleol lle maent yn gwneud cais, fel arfer drwy gyfnod o fyw yno'n flaenorol neu gyflogaeth yn ardal y cyngor. Fodd bynnag, mae eithriad i'r gofyniad cysylltiad lleol yn achos aelodau penodedig o gymuned y Lluoedd Arfog. Hoffem weld yr eithriad cysylltiad lleol yn cael ei gymhwyso i wŷr a gwragedd sydd wedi ysgaru a gwahanu a phartneriaid personél y Lluoedd Arfog hefyd.



RHAN O LWYBR TAI CENEDLAETHOL AR GYFER CYN-AELODAU'R LLUOEDD ARFOG

At ddibenion Deddf Tai 2014, mae aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu, a phersonau eraill sydd fel arfer yn byw gyda hwy fel rhan o'u teulu, yn sefydlu cysylltiad lleol ag ardal yn rhinwedd y ffaith eu bod yn gwasanaethu, neu wedi gwasanaethu, yno tra eu bod yn y Lluoedd Arfog. Mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol ystyried, yng ngoleuni amgylchiadau lleol, yr angen i weithredu'r ddarpariaeth hon. Dyma rai enghreifftiau o bobl y dylai Awdurdod Lleol ystyried rhoi blaenoriaeth ychwanegol iddynt o fewn eu cynllun dyrannu:

iv) unrhyw ymgeisydd sydd angen symud i lety sydd wedi'i addasu oherwydd anaf difrifol, cyflwr meddygol neu anabledd y mae ef neu hi, neu aelod o'u teulu, wedi'i gael o ganlyniad i wasanaeth yn y Lluoedd Arfog.

v) pobl sydd angen llety o ganlyniad i adael y Lluoedd Arfog a cholli llety milwrol.

Fel arfer, rydym yn canfod nad yw awdurdodau lleol yn deall yr eithriadau i'r gofyniad cysylltiad lleol ar gyfer cyn-filwyr. Mae'n bolisi sy'n cael ei gamddeall weithiau gan staff cyngorau ac yn aml gan yr aelod o gymuned y Lluoedd Arfog sy'n gwneud y cais. Hefyd, gall y rhai sy'n gadael y Gwasanaeth fod yn ansicr pan fyddant yn gadael y Lluoedd Arfog ynglŷn â ble yn y wlad fyddai fwyaf addas iddynt ymgartrefu. Os caiff ei ryddhau'n annisgwyl o gynnar

oherwydd anaf neu amgylchiadau eraill, mae'n bosibl na fydd y cyn-filwr yn gallu penderfynu ar drefniadau cartref hirdymor.

Yn Lloegr, ceir cyfyngiad amser o bum mlynedd ar eithriadau i feini prawf y cysylltiad lleol mewn dyraniadau tai. **Nid oes unrhyw gyfyngiadau amser o'r fath yn bodoli yn neddfwriaeth Llywodraeth Cymru.**

Cynghorau Gwent

Gan weithio'n agos â'u Swyddog Cyswllt Lluoedd Arfog (AFLO) mae Cynghorau Torfaen, Casnewydd a Chaerffili wedi dechrau ôl-ddyddio ceisiadau tai yn achos rhai sy'n gadael y Gwasanaeth, a rhai a adawodd y Gwasanaeth yn ddiweddar, i ddyddiad dechrau eu Gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog. Mae hyn yn helpu i leihau'r anfantais a all ddeillio o wasanaethu yn y Lluoedd Arfog o ran rhestrau aros am dai. Mae'r Llog yn cymeradwyo'r polisi hwn a byddai'n hoffi ei weld yn cael ei weithredu ledled Cymru.

Tŷ Ryan, Wrecsam

Partneriaeth yw Tŷ Ryan rhwng First Choice Housing ac Awdurdod Lleol Wrecsam sydd wedi helpu i ddarparu tai ychwanegol i gyn-filwyr yng Ngogledd Cymru. Mae'n brosiect hunan-adeiladu, sydd wedi galluogi cyn-filwyr i gymryd rhan yn y gwaith o adeiladu eu cartrefi eu hunain, gan ennill ystod o sgiliau a chymwysterau yn y broses a gall hefyd helpu eu cyfleoedd i gael gwaith yn y dyfodol.



Cynllun Enwebu Cyn-filwyr

Sefydlwyd y Cynllun Enwebu Cyn-filwyr (VNS) gan Stoll, mewn partneriaeth â'r Llog Brydeinig Frenhinol, i ddod o hyd i gartrefi sefydlog a fforddiadwy i gyn-filwyr. Mae'r Stoll yn cydweithio â mwy na 90 o gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i'w paru â chyn-bersonél y Lluoedd Arfog sydd angen cartref. Mae'r cynllun yn gweithio'n dda yn achos cyn-filwyr sengl neu gyplau heb blant a chanddynt lefel isel o anghenion cymorth ac sy'n ei chael yn anodd dod o hyd i gartref fforddiadwy. Unwaith y bydd ymgeisydd wedi cael ei gyfeirio at y VNS, bydd Stoll yn ei baru â darparwr tai cyfagos ac yn sicrhau llety am gyfraddau rhent fforddiadwy.

Ers Gorffennaf 2019, mae dros 530 o gyn-filwyr wedi derbyn cymorth i gael tai cymdeithasol ond mae rhestr aros faith mewn rhai rhannau o'r wlad. Mae Stoll bob amser yn chwilio am gyfleoedd i ffurfio partneriaethau gyda chymdeithasau tai newydd ac awdurdodau lleol i ddarganfod mwy o dai ar gyfer cyn-filwyr.

Sut mae'r VNS yn gweithio yn achos darparwyr tai cymdeithasol?

1. Mae'r darparwr tai yn dyrannu un eiddo neu fwy i'r rhaglen i'w clustnodi ar gyfer cyn-filwr.
2. Mae Stoll yn rheoli atgyfeiriadau ac yn gwirio'r ymgeiswyr i sicrhau eu bod yn barod i reoli tenantiaeth ac yn ystyried pwy fydd yn briodol ar gyfer y llety sydd ar gael.
3. Bydd Stoll yn paru cyn-filwr sy'n chwilio am lety â'r math cywir o lety o fewn yr ardal y mae'n edrych arni.
4. Yna gall y darparwr gyfweld â'r cyn-filwr a

chynnal ei wiriadau a'i brosesau ei hun.

5. Os oes cyfatebiaeth dda, gofynnir i'r cyn-filwr arwyddo cytundeb tenantiaeth y darparwr a gall symud i mewn pan fydd yn barod.

Sut mae'r VNS yn gweithio yn achos ymgeiswyr?

1. Gall unrhyw sefydliad sy'n gweithio gyda chyn-filwyr gyfeirio rhywun at y fîm VNS. Ni dderbynnir ceisiadau uniongyrchol gan gyn-filwyr. Bydd y sawl sy'n cyfeirio yn gwirio cofnod Gwasanaeth y cyn-filwr a'i anghenion cymorth ac yn dangos y bydd yn trefnu cymorth i'r cyn-filwr os oes angen.
2. Bydd y fîm VNS yn cydnabod derbyn y cyfeiriad ac yn adolygu'r cais. Os yw'n llwyddiannus, bydd y cyn-filwr yn cael ei ychwanegu at y rhestr aros. Bydd VNS yn ceisio paru'r cyn-filwr â llety priodol yn yr ardal a ddymunir.
3. Bydd y cyn-filwr yn cael gwahoddiad gan y darparwr tai i ddod am gyfweliad a gwiriadau cyn-denantiaeth. Yna, bydd y cyn-filwr yn cael gwahoddiad i weld eiddo er mwyn gweld a yw'n addas.
4. Os yw'r cyn-filwr yn hapus, bydd tenantiaeth yn cael ei pharatoi a dyddiad symud i mewn yn cael ei drefnu.

Rhagor o wybodaeth:

www.stoll.org.uk/housing/vns/
Ebost: vns@stoll.org.uk
Ffôn: 020 7381 8652

Gwella Gwasanaethau Dyrannu Tai:

- **Adnabod cyn-filwyr mor gynnar ag sydd bosibl**

Ei gwneud hi'n arfer safonol gofyn i'r holl rai sy'n gwneud cais i'ch awdurdod a ydynt hwy, neu aelod o'u teulu, erioed wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog ei Mawrhydi.

- **Hyfforddi staff**

Sicrhau bod staff yn eich sefydliad yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a'r gweithdrefnau cywir sy'n gysylltiedig â'r eithriad cysylltiad lleol a ffafriaeth ychwanegol sy'n ddyledus i aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog. Bydd AFLO pob ardal yn gallu helpu gyda hyn.

- **Partneru â'r Cynllun Enwebu Cyn-filwyr (VNS)**

Ystyried gweithio gyda Stoll drwy'r VNS neu neilltuo stoc dai yn benodol ar gyfer cyn-bersonél y Lluoedd Arfog neu eu teuluoedd.

- **Cyfeirio at elusennau arbenigol ledled y wlad ar gyfer cymorth ychwanegol**

Mae nifer o elusennau'r Lluoedd Arfog yn gweithredu ledled Cymru a gall y dewis fod yn ddryslyd. Sefydlwyd y Veterans' Gateway i fod yn gyswllt cyntaf i gyn-filwyr sy'n ceisio cymorth ac mae ar gael 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos. Gall y Gateway ddarparu cymorth gan gynghorwyr tai arbenigol. Ceir rhagor o wybodaeth ym Mhennod Pedwar.

- **Adolygu polisïau dyrannu tai**

Adolygu polisïau'n rheolaidd ac ymgynghori ag elusennau'r Lluoedd Arfog i roi'r gwasanaeth gorau posibl i aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog.





PENNOD TRI

ADNABOD CYMUNED Y LLUOEDD ARFOG

Gofyn y cwestiwn

Mae darparu cymorth arbenigol yn dibynnu ar nodi aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog. Mae'r Llang wedi cynorthwyo llawer o aelodau o'r Lluoedd Arfog na chawsant y gefnogaeth y byddent yn ei disgwyl, neu a fyddai fwyaf buddiol iddynt hwy a'r darparwr statudol, un ai am na chawsant y cyfle i ddatgelu eu Gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog neu oherwydd nad oedd yr awdurdod yn gwybod beth i'w wneud nesaf yn achos y cyn-filwyr a nodwyd a'u teuluoedd.

Mae'r Llang yn argymhell gofyn cwestiwn a fydd yn nodi:

- Cyn-aelodau o Luoedd Arfog Ei Mawrhydi, y Luoedd Rheolaidd ac Wrth Gefn
- Gŵr/gwraig neu bartner y sawl sy'n gwasanaethu neu gyn-aelodau o Luoedd Arfog ei Mawrhydi
- Gweddwon/Gwŷr gweddwr rhai sy'n gwasanaethu neu gyn-aelodau o Luoedd Arfog Ei Mawrhydi
- Plant dibynnol aelodau sy'n gwasanaethu neu gyn-aelodau o Luoedd Arfog Ei Mawrhydi
- Gwragedd/Gwŷr neu bartneriaid aelodau sy'n gwasanaethu neu'n gyn-aelodau o Luoedd Arfog Ei Mawrhydi sydd wedi ysgaru neu wahanu'n ddiweddar

Heb ddeall yr angen dros ofyn y cwestiwn a heb wybod pa gymorth teilwredig a fydd yn dilyn y broses o adnabod cyn-filwr, efallai y bydd staff rheng flaen yn anghofio gofyn. Felly, rydym yn argymhell fod pob corff cyhoeddus yn pwysleisio diben a phwysigrwydd gofyn y cwestiwn yn ystod hyfforddiant staff, a bod staff yn gwbl ymwybodol o'r gwasanaeth y dylent fod yn ei ddarparu i aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog.

Os yw aelod o gymuned y Lluoedd Arfog yn cysylltu ag awdurdod tai yn dilyn cyngor gan elusen filwrol, mae'n debygol fod y cyn-filwr wedi cael ei annog i ddatgelu ei Wasanaeth blaenorol yn y Lluoedd Arfog a bod ei Wasanaeth wedi'i wirio eisoes gan yr elusen sy'n ei gyfeirio. Os nad dyma'r achos ac os bydd angen gwiriad, dylai'r awdurdod a'r cyn-filwr gysylltu â Veterans UK i wirio Gwasanaeth yn y gorffennol.

Rhagor o wybodaeth:

Veterans UK: www.gov.uk/government/organisations/veterans-uk

Ebost: veterans-uk@mod.gov.uk

Rhadffôn (DU yn unig): 0808 1914 218

Ffôn (tramor): +44 1253 866 043

Profiad Rhai sy'n Gadael Gwasanaeth

Yn achos y rhai sy'n gadael y Gwasanaeth ac sy'n dod at ddiwedd gyrfa hir, y tebygolrwydd yw y byddant wedi bod yn paratoi ar gyfer dychwelyd i fywyd sifil am beth amser ac y byddant yn barod i gael eu rhyddhau o'r Lluoedd Arfog. Hyd at 6 mis cyn eu rhyddhau o'r Lluoedd Arfog, gall personél dderbyn Tystysgrif Terfynu Hawl Preswyllo mewn Llety'r Gwasanaeth, a dylid derbyn hyn fel prawf o fod dan fygythiad o fod yn ddigartref. Weithiau, y personél sy'n gadael y Lluoedd Arfog yn annisgwyl o gynnar sy'n cael anawsterau i ail-ymgynefino â bywyd sifil. Gall Rhyddhau ar Fyr Rybudd, er enghraifft, o ganlyniad i ryddhau am resymau disgyblaethol neu oherwydd camymddygiad, roi cyn lleied â 28 diwrnod o rybudd i bersonél adael llety a ddarperir gan y Gwasanaeth a dychwelyd i fywyd sifil. Mae gwybodaeth ar gael i bersonél sy'n paratoi i adael y Lluoedd Arfog gan y Weinyddiaeth Amddiffyn drwy Swyddfa Cyngor ar Dai'r Gwasanaeth (JSHAO). Bydd amgylchiadau lle cynghorir y personél gan JSHAO i gysylltu ag awdurdod lleol a gwneud cais am dai

cymdeithasol neu wneud cais digartrefedd os ydynt dan fygythiad o fod yn ddigartref. Mae'n bosibl y bydd cleientiaid sy'n dal i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac sy'n paratoi i symud i lety sifil yn cysylltu ag awdurdodau lleol. Yn yr achosion hyn, dylai dogfennau sy'n rhoi rhybudd i adael llety Gwasanaeth gael eu derbyn fel prawf o fod dan fygythiad o ddigartrefedd.

Dogfennau rhyddhau

Dylid rhoi sawl dogfen i bersonél yn ystod y broses ryddhau a fydd yn eu dangos eu bod yn gyn-filwr. Gellir cyflymu'r broses o wirio Gwasanaeth a chyfeirio cyn-filwyr at y ffynonellau cymorth mwyaf priodol drwy ofyn i gyn-filwyr ddangos eu papurau rhyddhau, eu rhybudd i adael llety'r Gwasanaeth, neu ffurflenni rhyddhau meddygol wrth wneud cais i awdurdod lleol. Bydd ychwanegu cyngor sy'n nodi y gallai'r dogfennau hyn fod yn ddefnyddiol at yr wybodaeth ar wefan awdurdod lleol helpu ymgeiswyr o gymuned y Lluoedd Arfog i baratoi'n well wrth gysylltu â chyngor neu gymdeithas dai i ofyn am gymorth.



© Imran's Photography / Shutterstock.com

DIFFINIAD O GYN-FILWR O THE STRATEGY FOR OUR VETERANS, Y WEINYDDIAETH AMDDIFFYN 2018.

"Mae'r Llywodraeth yn diffinio cyn-filwr fel unrhyw un sydd wedi gwasanaethu am o leiaf un diwrnod yn Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi, un ai yn y Lluoedd Rheolaidd neu yn y Lluoedd Wrth Gefn, neu'r Llongwyr Masnach sydd wedi bod ar ddyletswydd yn ystod ymgyrchoddd milwrol a ddiffiniwyd yn gyfreithiol. Mae cyn-filwyr eisoes wedi gadael Lluoedd Arfog y DU. Mae gan rai sefydliadau anllywodraethol ddiffiniadau eraill, er mai mân wahaniaethau yw'r rhain."

Cofiwch bydd gan unrhyw deulu sy'n cynnwys cyn-filwr neu bobl sy'n Gwasanaethu, fel y disgrifiwyd uchod, hawl i'r darpariaethau arbennig a ddisgrifiwyd mewn penodau blaenorol. Dyna pam y mae'n bwysig cofio nad yw rhywun sy'n gwneud cais i awdurdod lleol efallai yn gwasanaethu neu'n gyn-filwr ei hun, ond fod hynny'n wir am aelod o'i deulu, ac felly mae ef neu hi yn aelod o deulu cysylltiedig â'r Lluoedd Arfog.

Cardiau Adnabod Cyn-Filwyr

O 2019 ymlaen, efallai bod gan gyn-filwyr Gerdyn Adnabod Cyn-Filwr. Dylai hyn helpu i wirio ei Wasanaeth yn gynt. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi gan nad yw'r cerdyn yn orfodol, ei bod yn hanfodol parhau i 'ofyn y cwestiwn' a gwirio'r Gwasanaeth gan ddefnyddio'r dulliau eraill a amlinellir yn y ddogfen hon.

Rhagor o gymorth

Veterans UK: www.gov.uk/government/organisations/veterans-uk
Ebost: veterans-uk@mod.gov.uk
Rhaffôn (DU yn unig): 0808 1914 218
Ffôn (tramor): +44 1253 866 043

Mae canllawiau a modiwlau e-ddysgu ar gyfer staff awdurdod lleol ar gael ar wefan Cyfamod y Lluoedd Arfog: www.armedforcescovenant.gov.uk/localauthorities

Swyddfa Cyngor ar Dai'r Gwasanaeth:
www.gov.uk/government/collections/joint-service-housing-advice-office-jshao

PENNOD PEDWAR

FFYNONELLAU CYMORTH ALLWEDDOL

Mae nifer o elusennau'r Lluoedd Arfog ar waith, a gall fod yn ddryslyd canfod eich ffordd drwy bob un ohonynt er mwyn dod o hyd i'r ffynhonnell orau o gefnogaeth i aelod o gymuned y Lluoedd Arfog sydd mewn angen. Mae'r bennod hon yn amlygu ffynonellau cymorth allweddol sy'n symleiddio'r broses o ddarganfod cymorth priodol.

Veterans' Gateway

Veterans' Gateway yw'r cyswllt cyntaf i gyn-filwyr sy'n chwilio am gymorth Mae'n rhoi cyn-filwyr a'u teuluoedd mewn cysylltiad â'r sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i helpu o safbwynt yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt – o ofal iechyd a thai i gyflogadwyedd, cyllid, perthynas personol a mwy.

Gellir cysylltu â Veterans' Gateway 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos.

www.veteransgateway.org.uk

Ffôn: **0808 802 1212**

Anfonwch neges destun at **81212** ti dderbyn galwad yn ôl.

Mae'r wefan yn cynnal porth opsiynau tai sy'n rhestru lleoedd gwag mewn llety penodol ar gyfer cyn-filwyr a ddarperir gan aelodau Clwstwr Tai Cobseo a chefnogwyr Veterans' Gateway. Mae'r rhain yn amrywio o hostelaau arbenigol a phrosiectau tai â chymorth i lety teuluol. Caiff y tudalennau hyn eu diweddaru bob pythefnos a gall pob darparwr tai sy'n cefnogi cymuned y cyn-filwyr wneud cais am restr ar y porth drwy gysylltu ag enquiries@veteransgateway.org.uk

Gellir cael mynediad i'r porth yn https://support.veteransgateway.org.uk/app/finding_a_home

Cyfeiriadur Clwstwr Tai Cobseo

Cyddfederasiwn Elusennau'r Gwasanaeth yw Cobseo ac mae'n dod â'i aelodau ynghyd i gydweithredu a chydweithio ag eraill er mwyn darparu'r lefel orau bosibl o gymorth i fuddiolwyr. Mae Clwstwr Tai Cobseo yn cynnwys ystod eang o sefydliadau tai elusennol a chymdeithasol sy'n darparu llety yn benodol i gyn-filwyr. Mae aelodau'r Clwstwr yn gweithio i ddarparu mwy o lety ar gyfer cymuned y cyn-filwyr ac i gyflwyno sector tai integredig i gyn-filwyr lle ceir llwybrau clir ar gyfer cyn-bersonél y Lluoedd Arfog sydd angen tai fel y gallant symud i mewn i gartrefi parhaol. Mae'r Clwstwr hefyd yn cynnal cyfeiriadur o wasanaethau pwrpasol ar gyfer cyn-filwyr sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

Mae'r cyfeiriadur yn darparu mynegai yn ôl lleoliad daearyddol y gellir ei ddefnyddio i ddod o hyd i gymorth a llety yn eich ardal leol.

Ewch i'r cyfeiriadur i ddarganfod mwy am waith y clwstwr ar eu gwefan:

www.cobseo.org.uk/clusters/housing/

Ymgrych newydd dan arweiniad Clwstwr Tai Cobseo yw No Homeless Veterans. Mae'n sicrhau bod cyn-filwyr yn cael eu hadnabod fel cyn-aelodau o'r Lluoedd pan fyddant mewn angen a'u bod yn cael eu cyfeirio'n gyflym ac yn effeithiol at y gwasanaethau cymorth datblygedig sydd ar gael iddynt. Mae gan yr ymgrych wefan bwrpasol: www.nohomelessveterans.org.uk

Alabaré – Cartrefi i Gyn-filwyr Cymru

Mae Alabaré yn darparu cefnogaeth bwrpasol i Gyn-filwyr yng Ngogledd a De Cymru – yn benodol: Abertawe, Caerfyrddin, Clydach, Caerdydd, Pontypridd a Merthyr Tudful yn Ne Cymru; Glan Conwy, Cyffordd Llandudno a Bae Colwyn yng Ngogledd Cymru.

Yr eiddo yng Nghlydach yw'r Hen Ysbyty Coffa. Mae ganddo pedwar fflat hunangynhwysol ar gyfer cyn-filwyr sydd ar fin bod yn barod i symud i'w llety eu hunain ond sydd angen ychydig o gymorth o hyd i gael pethau'n iawn.

Mae cyn-filwyr yn cael gweithiwr allweddol sy'n gweithio gyda hwy i gytuno ar gynllun cymorth yn seiliedig ar eu hanghenion unigol. Yn y cartref, mae'n bosibl iddynt gael hyfforddiant a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byw yn annibynnol, gan gynnwys cyllidebu, bwyta'n iach, siopa a sgiliau bywyd.

Mae Alabaré yn derbyn unigolion sy'n cael eu cyfeirio at Gartrefi yng Nghymru ar gyfer Cyn-filwyr gan asiantaethau cymorth lleol, Y Llog Brydeinig Frenhinol ac elusennau eraill.

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am Gartrefi Alabaré i Gyn-filwyr e-bostiwch: veterans@alabare.co.uk neu ewch i <https://www.alabare.co.uk/theme/homes-for-veterans-wales>



CASGLIAD

CAMAU GWEITHREDU A ARGYMHELLIR

- Ymuno ag awdurdodau lleol Gwent i ôl-ddyddio ceisiadau tai ar gyfer y rhai sy'n gadael y Gwasanaeth, a'r rhai a adawodd y Gwasanaeth yn ddiweddar, i ddyddiad dechrau eu Gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog.
- Ymestyn angen blaenoriaethol fel ei fod yn cwmpasu pum mlynedd ar ôl rhyddhau o'r Lluoedd Arfog.
- Cydnabod derbyn Pensiwn Anabledd Rhyfel neu Daliad Incwm Gwarantedig y Lluoedd Arfog fel 'rhesymau arbennig' a rhoi blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny.
- Adnabod cyn-filwyr mor gynnar â phosibl. Gofalu eich bod yn 'gofyn y cwestiwn' ac yn esbonio i'r cleient ei fod yn cael ei ofyn er mwyn gallu ei gyfeirio at y cymorth gorau sydd ar gael.
- Meithrin partneriaethau ag elusennau'r Lluoedd Arfog yn yr ardal a chynllunio cyngor a gwybodaeth arbenigol yn lleol i'w rhoi i gleientiaid y nodwyd eu bod yn perthyn i gymuned y Lluoedd Arfog. Defnyddio Cyfeiriadur Clwstwr Tai Cobseo i weld a oes unrhyw lety penodol i gyn-filwyr yn eich ardal.
- Penodi a hyfforddi 'Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog' pwrpasol sy'n gweithio mewn adrannau tai. Bydd y bobl hyn yn ffynonellau gwybodaeth allweddol i ddarparu cymorth cyflym ac effeithiol i aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog. Rhoi gwybod i aelodau eraill o staff a'r cyhoedd am y bobl hyn fel bod eu harbenigedd yn cael ei ddarganfod yn gyflym bob amser.
- Llunio Cynlluniau Tai Personol sy'n cynnwys manylion statws cyn-filwr neu gysylltiad aelod o'r teulu a defnyddio cysylltiadau ag elusennau yn yr ardal sy'n gallu darparu arbenigedd ychwanegol a rhoi cymorth i'r cleient.
- Caniatáu i'r eithriad cysylltiad lleol fod yn berthnasol i wŷr/gwragedd neu bartneriaid personél y Lluoedd Arfog sydd wedi ysgaru neu wahanu.
- Neilltuo stoc dai yn benodol ar gyfer cyn-bersonél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd. Gwell fyth, bod yn bartner i'r Cynllun Enwebu Cyn-filwyr sy'n cael ei redeg gan elusen Stoll a neilltuo eiddo i'w ddefnyddio gan ymgeiswyr y Lluoedd Arfog ar gyfer tai cymdeithasol.

Camau gweithredu a argymhellir

- Adolygu'r polisïau ar ddyraniadau tai yn rheolaidd ac ymgynghori ag elusennau'r Lluoedd Arfog i roi'r gwasanaeth gorau posibl i aelodau cymuned y Lluoedd Arfog.
- Gwirio Gwasanaeth yr ymgeisydd yn y gorffennol, os oes angen, drwy gysylltu â Veterans UK.
- Deall y gallai personél sy'n gwasanaethu fod wedi cael cymaint â chwe mis o rybudd cyn symud allan o'u llety Gwasanaeth. Bod yn barod i dderbyn y rhybudd hwnnw fel prawf o fod dan fygythiad o ddigartrefedd a chofio hysbysu ymgeiswyr y dylent gyflwyno'r dogfennau i staff y cyngor.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o wasanaeth Veterans' Gateway a, lle bo'n briodol, cyfeirio cleientiaid at y gwasanaeth i gael cymorth. Rhoi manylion Veterans' Gateway ar wefan eich awdurdod lleol. E-bostio **enquiries@veteransgateway.org.uk** i ofyn am becyn cymorth marchnata digidol.
- Derbyn briff gan yr ymgyrch No Homeless Veterans, a ddarperir gan Glwstwr Tai Cobseo.



DARLLEN YMHELLACH A LLYFRYDDIAETH

- Cyfamod y Lluoedd Arfog:
www.armedforcescovenant.gov.uk
- Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyraniadau Llety a Digartrefedd:
<https://gweddiill.gov.wales/docs/desh/publications/160324-code-of-guidance-for-local-authorities-on-allocation-of-accommodation-and-homelessness-en.pdf>
- Clwstwr Tai Cobseo: www.cobseo.org.uk/clusters/housing/
- Forces in Mind Trust (2013) *The Transition Mapping Study*:
<https://www.fim-trust.org/news/transition-mapping-study-report/>
- Deddf Tai (Cymru) 2014:
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/7/pdfs/anaw_20140007_en.pdf
- Llwybr Tai ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog:
<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/national-housing-pathway-for-ex-service-personnel.pdf>
- Swyddfa Cyngor ar Dai'r Gwasanaeth (JSHAO):
www.gov.uk/government/collections/joint-service-housing-advice-office-jshao
- Cynllun Gweithredu Cysgu Allan 2018:
<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/rough-sleeping-action-plan.pdf>
- Canolfan Llety Person Sengl i Gyn-Weithwyr y Lluoedd Arfog (SPACES):
www.spaces.org.uk
- Y cynllun digartrefedd deng mlynedd i Gymru: 2009–2019:
<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/10-year-homelessness-plan-2009-to-2019.pdf>
- Prifysgol Caerefrog (2014) *Meeting the housing and support needs of single veterans in Great Britain*.
- Prifysgol Caerefrog (2018) *Accommodation for Single Veterans: Developing Housing and Support Pathways*.
- Stoll – Cynllun Enwebu Cyn-filwyr:
www.stoll.org.uk/housing/vns/
- Veterans Aid:
www.veterans-aid.net
- Veterans' Gateway:
www.veteransgateway.org.uk
- Veterans UK:
www.gov.uk/government/organisations/veterans-uk



LIVE ON

THE ROYAL ARMY
LEGION

